# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Y Cynghorydd Huw David**

**Ward: Y Pîl, Mynydd Cynffig a Chefn Cribwr**

## Plaid: Plaid Lafur Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Mai 2024**. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Ers 2016 gwasanaethais fel Arweinydd y Cyngor ond ni ymgeisiais i gael fy ailethol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024. Cefais fy ethol am y tro cyntaf i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Cefn Cribwr yn 2004. Ers 2022, rwyf wedi cynrychioli'r Pîl, Mynydd Cynffig a Chefn Cribwr ynghyd â'r Cynghorydd Jane Gebbie a'r Cynghorydd Mike Kearn. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n gilydd, ac yn cynnal cymorthfeydd cynghori misol rheolaidd yn Neuadd Eglwys y Pîl, Clwb Rygbi Mynydd Cynffig a Chanolfan Gymunedol Cefn Cribwr.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi mynegi 534 o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Mae rhagor o wybodaeth am fy rolau, fy nghyfrifoldebau a'm gweithgareddau ar gael drwy ddilyn y ddolen hon:

Y Cynghorydd Huw David

**<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**

Ynghyd â'r Cynghorydd Gebbie a'r Cynghorydd Kearn, rydym wedi cefnogi ehangu'r ddarpariaeth dechrau'n deg i bob teulu yn y Pîl, Mynydd Cynffig a Chefn Cribwr.

Rydym wedi gweithio tuag at adnewyddu'r ddwy ardal chwarae i blant ar Dir Comin Mynydd Bach a Chaeau Chwarae Cae'r Gof, y ddau yng Nghefn Cribwr.

Arweiniais gyfarfodydd rheolaidd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith o agor y ganolfan ailgylchu gymunedol bwrpasol newydd yn y Pîl ar Stad Ddiwydiannol Village Farm.

| |
|---|
| Cynyddwyd amlder clybiau ieuenctid gyda sesiwn wythnosol ychwanegol yn cael ei chynnal yn Ysgol Gyfun Cynffig i ddiwallu'r angen. Roedd y cyfleuster ieuenctid symudol newydd hefyd yn cael ei leoli'n rheolaidd yng Nghanolfan Bywyd y Pîl.<br><br>Mewn partneriaeth â'r clwb, sicrhawyd cyllid gan y cyngor i gefnogi Clwb Rygbi Mynydd Cynffig i osod gwelliannau hanfodol i'w cae yng Nghaeau Chwarae Crofft Goch, gan alluogi mwy o ddefnydd o'r cyfleuster.<br><br>Yr ydym wedi cefnogi cynnydd y cyngor ar ddatblygu cynllun arfaethedig i godi Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig newydd sbon ar un safle.<br><br>Mae Ysgol Gynradd Y Pîl wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i greu ysgol goedwig awyr agored i hybu lles plant yn yr ysgol.<br><br>Mae prosiect gwella mannau gwyrdd wedi gwneud gwelliannau ym Mharc Bedford yng Nghefn Cribwr a Frog Pond Wood yn y Pîl. |
| **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**<br><br>Fel arweinydd, ynghyd â chydweithwyr yn y Cabinet, gan gynnwys y Cynghorydd Gebbie, buom yn gweithio ar adleoli marchnad dan do Pen-y-bont ar Ogwr i leoliad newydd yn dilyn cau neuadd y farchnad yn sydyn oherwydd ailasesiad RAAC.<br><br>Dechreuodd y gwaith paratoi ar gyfer campws coleg newydd o'r radd flaenaf yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Gwnaed cynnydd sylweddol o ran ailddatblygu ac ymestyn Neuadd y Dref hanesyddol Maesteg. Mae gwaith marchnata ar gyfer y safle yn mynd rhagddo ar ystâd ddiwydiannol Ffordd Ewenni ym Maesteg i ddatblygu cymuned newydd.<br><br>Aeth y gwaith o ailddatblygu Pafiliwn Mawreddog Porthcawl rhagddo yn dilyn cais llwyddiannus gan y cyngor mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen am grant gwerth £18 miliwn gan Lywodraeth y DU. Mae siop fwyd newydd wedi agor, a chwblhawyd y gwaith ar amddiffynfeydd môr newydd ar y Promenâd Dwyreiniol a'r Morglawdd Dwyreiniol. Dechreuodd y gwaith ar y safle ar gyfer Metrolink newydd.<br><br>Mae canolfan gofal plant newydd sy'n cynnig cefnogaeth a darpariaeth breswyl i blant agored i niwed sydd ag anghenion cymhleth wedi agor.<br><br>Mae cynnydd pellach wedi'i wneud ar raglen moderneiddio ysgolion yr 21ain ganrif gyda chynlluniau ar gyfer dwy ysgol gynradd newydd yn lle'r rhai yng Nghorneli, cynllun estynedig i gymryd lle Ysgol Bro Ogwr ym Mracla a chynllun newydd mwy yn lle Ysgol Arbennig Heronsbridge. |
| **Gweithgareddau/Materion Eraill**<br><br>Rydym wedi cefnogi datblygiad a llwyddiant brecwast teuluol y Pîl.<br><br>Rydym wedi mynychu cymorthfeydd cynghori a gynhaliwyd gan Chris Elmore AS a Sarah Murphy AS.<br><br>Rwy'n aelod o Gyngor Cymuned Cefn Cribwr ac rydym hefyd yn adrodd yn rheolaidd i |

| |
|---|
| Gyngor Cymuned y Pîl.<br><br>Fel cadeirydd Cymdeithas Gymunedol Cefn Cribwr ers dros 20 mlynedd, rwy’n rhan o’r pwyllgor gwirfoddol sy’n rheoli canolfan gymunedol Cefn.<br><br>Fel un o’r aelodau a sefydlodd Clwb Garddio Cefn Cribwr, rwyf wedi cefnogi gweithgareddau a digwyddiadau fel Gerddi Agored.<br><br>Fel aelod o bwyllgor Cefn Gwyrdd, rwyf hefyd yn gwirfoddoli mewn digwyddiadau cymunedol eraill. |
| **Cynghorydd: HJ David** **Dyddiad: 29 Gorffennaf 2024** |